


Be sy a wnelo hyn â FI?

Mae'r Sul 13 Chwefror wedi ei glustnodi yn y calendr eglwysig fel Sul diogelu cyfiawnder hiliol. Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn holi a ydyn NI yn credu bod a wnelo hynny rhywbeth efo NI fel eglwysi ac fel unigolion.

Bob blwyddyn ers 1995 mae'r Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon wedi bod yn trefnu Sul Cyfiawnder Hiliol, gan ddarparu adnoddau addoliad a gwybodaeth ffeithiol i eglwysi. Y sbardun ar gyfer hyn oedd marwolaeth drasig yr hogyn ifanc du, Stephen Lawrence, a hynny yn Eltham, de Llundain, ar 22 Ebrill 1993. Roedd Stephen yn dychwelyd adref gyda ffrind pan ymosodwyd arno a'i ladd gan griw o lanciau gwyn. Bu'r ymchwiliad a ddilynodd y llofruddiaeth hon yn hynod ddiffygiol o safbwynt yr heddlu; ar un adeg bu'r heddlu hyd yn oed yn ysbïo ar deulu Stephen Lawrence. Arweiniodd hyn yn y pen draw at gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus dan ofal Jack Straw, yr Ysgrifennydd Cartref Llafur ar y pryd.

Ymhen amser cyhoeddwyd Adroddiad Macpherson, a ddaeth i'r casgliad fod

SUL CYFIAWNDER HILIOI 2022



CYFIAWNDER HILIOI:

BE SY A WNELO HYNNY Â FI?



Un o'r protestiadau a welwyd yn America yn dilyn marwolaeth George Floyd ym Mai 2020

Llun: o archif CTBI

yr ymchwiliad i farwolaeth Stephen wedi cael ei 'gawlio gan gyfuniad o anwybodaeth broffesiynol, hiliaeth sefydliadol a methiant arweinyddol'. Cafodd swyddogion penodol o fewn yr heddlu eu henwi, a beirniadwyd y corff cyfan am fethiannau dirfawr.

Roedd llofruddiaeth Stephen Lawrence yn un o nifer o enghreifftiau o ladd pobl dduon a phobl ifanc Asiaidd bryd hynny, er enghraifft Ricky Reel, Roland Adams, Quddus Ali ac eraill. Yr hyn a nodweddai'r holl achosion hyn (ar y pryd) oedd na chafwyd neb yn euog o'r lladdiadau hyn. Roedd y teulu Lawrence yn Gristnogion ac yn mynychu Eglwys y Methodistiaid yn Plumstead, de-ddwyrain Llundain.

Y cysylltiad hwn fu'n sbardun i annog yr Eglwys Fethodistaidd i gymryd

diddordeb yn yr achos hwn, gan annog enwadau eraill i gydweithio drwy gorff CTBI. Ar wahân i'r lladdiadau hyn, roedd Prydain y pryd hwnnw'n cynnwys cymunedau oedd yn llawn tensiynau hiliol, a arweiniodd at frwydr gynyddol gan lawer o ymgyrchwyr ar ran pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i gael cyfiawnder a chydaddoldeb yn y system cyfiawnder troseddol, cyflogaeth, addysg, iechyd (meddwl) a meysydd eraill sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus.

Yna, ynghanol y pandemig, llofruddiwyd George Floyd, Americanwr Affricanaidd, gan heddwys yn Minneapolis, UDA, ym mis Mai 2020. Cafodd y llofruddiaeth hon eto effaith fawr ar y frwydr i sicrhau cyfiawnder hiliol ledled y byd, gan roi'r mater 'nôl unwaith eto yn ganolog

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Be sy a wnelo hyn â FI?*(parhad o dudalen 1)*

ar agenda eglwysi a chymdeithas ar draws y byd. Ym Mhrydain ac Iwerddon, arweiniodd hyn nifer o enwadau eglwysig, grwpiau para-eglwysig a sefydliadau Cristnogol i gyhoeddi datganiadau'n condemnio hiliaeth ac yn gwneud ymrwymadau i herio hiliaeth o fewn eu strwythurau, a gweithio er dileu anghyfiawnderau ar sail hil. Disgrifiwyd llofruddiaeth George Floyd fel moment allweddol roddodd fater cyfiawnder hiliol yn ôl ar agenda'r eglwys eto, ac arweiniodd hyn at lawer o drafod dwys ac awydd ar ran llawer i weld newidiadau sylfaenol.

Y thema ar gyfer oedfa Sul Cyfiawnder Hiliol eleni yw 'Besya wnelo hyn â FI?', gan gofio bod ymchwil yn dangos bod llawer o Gristnogion ac eglwysi yn honni nad oes angen iddynt roi unrhyw ystyriaeth i hyn o gwbl. Yn ei ragair i'r adnoddau mae Richard Reddie, Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, yn dweud:

'Mae yma alwad clir ar bob Cristion i ymddiddori yn y frwydr dros gyfiawnder hiliol, gan fod cyfiawnder hiliol yn fusnes i bawb ohonom. Mae gan y Beibl lawer i'w ddweud am gyfiawnder, oherwydd mai Gair "Duw" ydyw, ac o'r herwydd mae'n adlewyrchu calon Duw dros gyfiawnder. Gellir dadlau y dylem ninnau felly garu cyfiawnder oherwydd mai dyna mae Duw yn ei wneud! Mae hiliaeth a "gwahaniaethu ar sail hil" yn faterion cyfiawnder, oherwydd eu bod yn gwadu cyfiawnder sylfaenol ac urddas dynol i fenywod a dynion, a grëwyd ar lun a delw Duw. Ond nid pawb a gydiodd yn yr her, a dewisodd rhai eglwysi anwybyddu'r

anghyfiawnder hwn. Mae'r adnodd hwn wedi'i ysgrifennu gyda'r garfan honno'n benodol mewn golwg, oherwydd bod y gwaith i ddod â hiliaeth i ben yn gofyn am ymdrech ac ymateb gan bawb o fewn yr eglwys.'

I eglwysi nad ydynt wedi rhoi sylw i Sul Cyfiawnder Hiliol o'r blaen, efallai oherwydd nad oeddent yn teimlo'n barod i wneud hynny, bydd yr adnodd hwn yn rhoi'r cyfle iddynt chwarae rôl weithredol yn y gwaith. I'r rhai sydd wedi dadlau fod eu heglwysi yn cael eu heithrio am nad oes ganddynt bobl ddu, Asiaidd neu rai o leiafrifoedd ethnig yn eu cynulleidfaoedd, ac felly nad oes angen rhoi sylw i'r mater, mae'r adnodd hwn yn awgrymu bod gan eglwysi yn yr ardaloedd hyn ran bwysig i'w chwarae wrth annog cymunedau i fod yn fwy derbyniol a chrosawgar o bobl o bob cefndir a diwylliant. O'r herwydd, mae'r deunydd hwn yn arfogi eglwysi â'r adnoddau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hyn. Meddai Richard Reddie, 'Mae'r gwaith i roi terfyn ar hiliaeth yn gofyn am ymateb ar y cyd gan bawb sy'n rhan o'r Eglwys'.

Os yw cyfiawnder hiliol yn fusnes i BAWB, ni ddylid ei ystyried yn fater 'beichus a chymhleth i'w osgoi', ond yn gyfle i eglwysi ganolbwyntio ar y tair prif egwyddor sef Cofio, Myfyrio ac Ymateb:

- COFIO pwysigrwydd cyfiawnder hiliol
- MYFYRIO ar amrywiaeth dynol a diolch i Dduw amdano
- YMATEB drwy weithio i roi terfyn ar anghyfiawnder, hiliaeth ac anwybodaeth - a hynny trwy barodrwydd i weithredu, ac mewn ysbryd o weddi.

Cyhoeddwyd y pecyn yn Gymraeg eleni, ac mae ar gael i'w lawrlwytho o

wefan [CTBI](#). Ceir ynddo ystod eang o ddeunyddiau a fydd yn galluogi eglwysi a chynulleidfaoedd i gynnal gwasanaeth yn canolbwyntio ar gyfiawnder hiliol. Mae'r adnoddau wedi'u creu ar gyfer Cristnogion o bob traddodiad ac eglwysi o bob enwad, a gobeithir y bydd defnydd helaeth ohonynt.

Ond erys y cwestiwn: tybed beth yw eich ymateb personol chi? Be sy a wnelo hyn â fi? Fel dilynwyd Iesu Grist, gobeithio ein bod yn derbyn ac yn croesawu holl bobl Dduw, ac yn barod i sefyll yn gadarn yn erbyn POB anghyfiawnder a cham.

'Stopiwch wneud drwg; dysgwch wneud da. Brwydrwch dros gyfiawnder, o blaid y rhai sy'n cael eu gorthrymu'. (Eseia 1: 17)

Gweddi dros gyfiawnder

Duw pob grym a Duw tragwyddoldeb, deun fel dy bobl i'th bresenoldeb, yn ddiolchgar am dy raslonrwydd, dy drugaredd a'th gariad.

Parhawn i gofio am y sawl sy'n dioddef oherwydd pandemig Covid, a gweddiwn y bydd yr Ysbryd Glân yn gwmi iddynt, i'w cysuro a'u hiacháu, i'w cynnal a'u cymodi gyda'i gilydd.

Ar y dydd arbennig hwn, cofiwn am deulu George Floyd, a phob teulu arall a effeithiwyd gan anghyfiawnder hiliol, gan feddwl am y sawl sy'n dioddef poen, y sawl sydd o dan anfantais a phawb sy'n dioddef rhagfarn hiliol. Eiriolwn drostynt. Boed iddynt brofi cysur ac iachâd, i ddwyn cyfiawnder a chymod, y naill gyda'r llall.

Dduw pob ffyddlondeb, cyflwynwn yr oedfa hon i'th arweiniad a'th ofal, gan weddio dros bob cyfrannwr a gwrandawr. Bydded iddynt gael eu hatgyfnerthu gan dy rym, ac yn ddigon dewr i ddweud ac i wneud yr hyn sy'n gywir a chyfiawn. Gweddiwn y bydd dy ddaioni a'th ogoniant ynghyd â'th gyfiawnder yn cael eu gogoneddu. Clyw ein gweddi yn enw dy fab Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen ac Amen.

**CYFIAWNDER
HILIO!**

BE SY A WNELO HYN NY Â FI?



O'r byd a'r betws



Yn ddiweddar buom yn dathlu canfed pen-blwydd Urdd Gobaith Cymru, ac mae'n siŵr y bydd y mudiad yn sicrhau y bydd hi'n flwyddyn o ddathliadau. Bydd yr Urdd yn cofio'r gorffennol yn ddiolchgar am ei hanes a'i seiliau cadarn, a hefyd yn awyddus i ddatblygu ei weledigaeth am waith yr Urdd dros y cyfnod nesaf.

Rhan o'r un dyhead oedd sefydlu momentwm i hyrwyddo buddiannau'r Gymraeg yn dilyn darlith arwyddocaol Saunders Lewis 'Tynged yr Iaith', a gafodd ei thraddodi drigain mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Bydd haneswyr y dyfodol yn siŵr o dafoli cyfraniad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i'r deffroad cenedlaethol, ac yn arbennig y rhai a fu'n weithredol yn ei hymgyrchoedd. Nodwn gyfraniad y mudiadau erall a weithredodd dros gyfiawnder i'r iaith, a bu cyfraniad y




Saunders Lewis

pleidiau gwleidyddol a'r Undebau Llafur, yr ysgolion a'r colegau, y cyngorau lleol a'r Mentrau Iaith yn bwysig yn yr ymgyrch. Er pwysiced fu'r cyfraniadau gan y cyrff a'r mudiadau amlwg, nid crair mewn amgueddfa yw'r iaith, ond elfen sylfaenol yn ein hunaniaeth. Y ffordd orau i hyrwyddo'r iaith yw ei defnyddio hi, a defnyddio'i statws cyfreithiol. Hoelion ei thranc yw clywed Cymry Cymraeg yn siarad Saesneg gyda'i gilydd, neu'n defnyddio'r Saesneg wrth lenwi ffurflenni neu godi arian o'r banc.

Beth felly am gyfraniad yr eglwys i fwrwm ein hiaith? Oni bai am gyfieithiadau Salesbury, Morgan a Davies, beth fyddai wedi digwydd i'r iaith? Yn yr un modd, er mor afiach oedd y pyllau glo yn ne Cymru, crëwyd cymunedau clòs yn y cymoedd, a gallai'r Cymry di-waith symud o fewn tir Cymru i gael bywoliaeth. Yn dilyn y newyn tatws, bu'n rhaid i lawer o Wyddelod adael Iwerddon a symud i wledydd eraill, ac fel canlyniad bu iddynt golli'r iaith.

Yn ystod y tri chwarter canrif diwethaf, bu'n rhaid i eglwys Cymraeg eu hiaith yn y cymoedd dderbyn patrwm o gynnal oedfaon dwyieithog, os nad troi'n llwyr i'r Saesneg. Yn ddiddorol, mae amryw o'r eglwys uniaith Saesneg wedi cau mewn rhai pentrefi cyn rhai o'r eglwys Cymraeg sy'n gwneud ymdrech arbennig i gynnal oedfaon yn Gymraeg. Ychydig sy'n weddill bellach, a dewis y teuluoedd Cristnogol a gyflwynodd eu plant i ofal ysgolion Cymraeg, ar y cyfan, fu aros gyda'r eglwys lle maged y rhieni. Wrth i'r meddylfryd o'ildio'r Gymraeg gripiant tua'r Gorllewin, gyda'r duedd i droi oedfaon Cymraeg yn oedfaon dwyieithog, mae perygl iddynt gyfrannu at wanhau'r iaith yn y broydd Cymraeg.



Yr Esgob William Morgan

Bydd pob eglwys, beth bynnag ei hardal, yn effro i'w braint a'i chyfrifoldeb i gynnig cymdeithas addolgar a chenhadol i drigolion y fro, ond mae her wahanol i eglwys Cymraeg eu cyfrwng. Bydd eglwys pob ardal yn ymwybodol o'u dyletswydd i ddarparu cymdeithas Gymraeg ei haith, ac ar yr un pryd i fod yn agored i gynorthwyo pobl nad ydynt wedi meistrol'i'r iaith i ddilyn yr addoliad cyhoeddus. Buom yn cynnig nodiadau dwyieithog i'r ymwelwyr a alwai heibio'r Tabernacl, Caerdydd, ers blynnyddoedd, a darparu cyfieithu ar y pryd, ond ni fyddem yn barod i droi oedfa yn oedfa ddwyieithog/Saesneg. Pe bai felly, yna pam ddylai ein haelodau deithio drwy'r traffig pan mae eglwys Saesneg yn lluosog ledled y brifddinas? Byddai'n ddifyr clywed beth yw barn eglwys Cymraeg mewn ardaloedd gwyliau yng Nghymru. Plis cysylltwch â golygyddion Cenn@d.

Denzil John

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 13 Chwefror, am 7:30yh (aillardarledir am 11:30yb y Sul canlynol)

Bydd Lisa yn troedio llwybr Mari Jones yng nghwmni Mary Thomas ac mi gawn ni gipolwg ar un o eiconau crefydd y Cymry, yr union gopi o'r Beibl a gafodd Mari Jones gan Thomas Charles yn y Bala yn 1800.

Dyma gopi o gylchlythyr mis Chwefror y rhaglen *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*, cliciwch ar y ddolen i gael golwg arno:

<https://express.adobe.com/page/FbvmDLlLnaoqm>

BBC | radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 13 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Cyfle eto i glywed rhaglen lle mae Elen Ifan yn bwrw golwg ar rai o'r straeon sy'n gefndir i enwau ein hemyn-donau.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 13 Chwefror, am 12:00yp

Gwasanaeth yng ngofal Siân Meinir, Penarth

Elifion G. Jones, Dinbych

Roedd Eifion o gyfansoddiad cryf ac o bersonoliaeth radlon, hamddenol. Gwelwyd y ddwy elfen yna – y cryf a'r hamddenol – drwy ei weinidogaeth faith mewn ardaloedd gwahanol i'w gilydd. Ar aelwyd Eglwys Bresbyteraidd Carmel, Conwy, y'i magwyd ef a'i ddwy chwaer, Rhiannon a Mair, a bu dylanwad y gweinidog oedd yno yng nghyfnod ieuencid y tri yn un arhosol – y Parchedig J. W. Jones, a oedd, wrth gwrs, yn un o hoelion wyth y pulpud Cymraeg. O dan ddylanwad gweinidogaeth JW y codwyd Eifion i'r weinidogaeth; cafodd ei ordeinio yn 1960, a'i sefydlu yn eglwys Presbyteraidd Seilo, Llwydiarth; Llangadfan a Gosen, Llanerfyl.

Arhosodd yno yng nghanol mwynder Maldwyn hyd 1965 pan gymerodd y cam i Ddyffryn clodfawr Clwyd a'i sefydlu yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn weinidog ar eglwys i'r Fron a'r Brwcws (Brookhouse), Dinbych, gan ychwanegu eglwys eraill yng nghwrs y blynyddoedd. Rhoddodd 39 o flynyddoedd o wasanaeth i'r cylch hwnnw a gweld cynnydd rhyfeddol yn y teuluoedd ifanc a ddô i fyw i Ddinbych, yn arbennig yn ystod y saithdegau ac eglwys y Fron yn cynyddu ar garlam, ac Eifion yng nghanol y berw, yn bwyllog a chryf. Felly hefyd y bu hi yn llawer o'r eglwys eraill yn Nyffryn Clwyd yn ystod y cyfnod hwnnw a thwr o weinidogion ifanc yn y dyffryn.

Gofalaeth Newydd

Er i Eifion yn 2004 ddymuno cario mlaen fel gweinidog, yn arbennig i gyrraedd y deugain mlynedd yn Ninbych, nid oedd yr enwad Presbyteraidd yn y cyfnod hwnnw yn fodlon i neb gario mlaen yn llawnamser wedi cyrraedd oed arbennig. Wel, os mai felly oedd hi i fod, felly roedd hi i fod ... ond doedd hynny ddim yn mynd i roi stop ar gerbyd Eifion Gilmour Jones ... nac ar ei weinidogaeth ... nac ar gylchoedd ei weinidogaeth. Dyma'r cyfnod y cydiodd mewn tair ardal wahanol i'w gilydd: Caersalem (P), Fflint; Seion (P), Corwen (gan rannu'r weinidogaeth yno â'r Parchedig T. L. Williams) ac Ebeneser (A), Hen Golwyn, a Bethel (A), Penmaenrhos, hyd nes caewyd drysau Bethel yn 2011. Dim ond person corfforol gryf, yn ei saithdegau bryd hynny, fedrai gydio

tair ardal wahanol a chymharol bell oddi wrth ei gilydd! A doedd teithio i gynnal oedfaon eraill yn poeni dim ar Eifion; gallsai fod yn Fflint yn y bore; Rhyd-y-main yn y pwnn a phen draw Sir Fôn yn y nos!

Personoliaeth

Roedd o'n glamp o gymeriad. Cryf, oedd; pwylllog, oedd. Ond yr oedd pobl yn bwysig iddo, ac yr oedd ganddo ddiddordeb mawr mewn pobl, yn arbennig yn y cylchoedd y bu'n gweinidogaethu ynddynt. Er mai un oedd wedi ei fagu mewn tref oedd o, roedd 'na ryw beth yn arbennig o wladaidd ynddo hefyd. Ac oherwydd hynny roedd yn ddyn agos at ei bobl, heb geisio bod yn neb ond ef ei hun. A dyna oedd yn braf amdano: Eifion oedd Eifion lle bynnag yr oedd, ac efo pwy bynnag, a doedd yna ddim mymryn o ysbryd cowtowio i fawrion ynddo, pwy bynnag ydi'r rheini. Roedd yn trin pawb 'run fath, ac yn awyddus am sgwrs o hyd, a gorau oll os oedd y sgwrs uwchben pryd o fwyd! Ac

os oedd yna siop hen greiriau (*antiques*) yn ymyl, dyna eisin ar y gacen!

Gadawodd ei ôl mewn sawl ardal, a chafodd ymgeledd cymwys iawn yn Gwenllïan, a gollwyd yn ifanc, ac yna'r plant – Eilir, Mirain a Llŷr – a'u teuluoedd hwythau yn bopeth iddo ar hyd y blynyddoedd.

Bu farw'n 87 oed ar 9 Hydref 2021 a chynhaliwyd ei angladd yng Nghapel y Fron a mynwent Dinbych ar 26 Hydref dan arweiniad ei weinidog, y Parchedig Ddr Andras Iago, gyda chymorth y Parchedigion Reuben Roberts, Bontnewydd; Graham Floyd, Dinbych; Tudur Rowlands, Rhuthun (eto a fagwyd yng Ngharmel, Conwy) a Christopher Prew, Porthmadog (a godwyd i'r weinidogaeth o'r Fron o dan weinidogaeth Eifion).

Diolch i Dduw amdano ac arhosed tangnefedd yr Arglywyd ar ei deulu.

Iwan Llewelyn

(trwy ganiatâd Y Tyst)

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain

Swydd Galluogwr Cenhadol Sir y Fflint



Mae Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain yn chwilio am berson egnïol a brwdfrydig i weithio gydag eglwys i'r henaduriaeth i ystyried eu cyfleon i wasanaethu, i genhadu ac i fod yn eglwys mewn ffyrdd gwahanol. Yn ogystal â bod yn gyfrifol am hyrwyddo gwaith plant ac ieuencid a theuluoedd yn y cylch, fe fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio tuag at greu hwb cenhadol i wasanaethu'r gymuned drwy ystyried llesiant gwahanol rannau ohoni.

Oriau: 35 awr yr wythnos, ond gellir ystyried rhannu swydd a chynnwys oriau ychwanegol wrth wneud hynny

Cytundeb: 3 blynedd yn y man cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

Cyflog: Graddfa 30 (£28,049) a chyfle i ymuno â chynllun pensiwn EBC

Lleoliad: Cylch yr Wyddgrug a Sir y Fflint

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirida boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:

e-bost – Hedd Morgan, hedd@ebcpcw.cymru

ffôn – 07815960439

Dyddiad cau: 11 Chwefror 2022 am 4 o'r gloch.

Dyddiad y cyfweiliad: 17 Chwefror

Dyfodol ein Canolfannau – Coleg y Bala

Tristfu clywed y newyddion yn ddiweddar fod dyfodol Coleg Trefeca a Choleg y Bala yn y fantol fel canolfannau'r Eglwys Bresbyteriaidd. Fel un a fu'n Arweinydd Cwrdd Plant Llanilar am flynyddoedd maith a chofio gymaint wnaeth cenedlaethau o blant ac ieuencid elwa o'r profiad o dreulio penwythnos yng Ngholeg y Bala, mae'n newyddion hynod o drist.

Byddai tua 50 o blant hynaf Cwrdd Plant Llanilar, fel sawl man arall, yn edrych ymlaen yn eiddgar at y penwythnos hwn ac roedd y brwdfrydedd mor heintus fel bod y gymuned garedig wedi sicrhau fod y ddyled wedi ei chlirio bob blwyddyn cyn i'r penwythnos gyrraedd. Un arwerthiant a dyna fe, codi bron ddwy fil o bunnoedd mewn awr neu ddwy! Gwyddai'r gymuned glòs yma gymaint oedd y plant yn elwa o'r profiad. Dyma gyfle gwyhych i ddysgu sgiliau byw ac mae hyn yn bwysicach nag unrhyw gwricwlwm sydd ar fin ymddangos.

Yn bendant dyma uchafbwynt y flwyddyn. Byddai Billy Morris, y siopwr lleol, a'r Brodyr James, y cwmni bysiau, wedi sicrhau fod cyflenwad o greision a 'phethau da' eraill yng nghist y bus a phawb mewn hwyliau da. Roedd yna gyffro mawr pan fyddai'r bus yn

troi i fyny ar hyd ffordd Tryweryn a bloeddiadau 'Hwrê' yn atseinio. Wedi penderfynu ar yr ystafelloedd a swpera, ymuno mewn epillog a pharatoi am noson o gwsg – ond un ddi-gwsg i'w harweinyddion!

Bore trannoeth, cerdded i lawr i'r dref ac edmygu ambell adeilad hanesyddol fel cartref Betsi Cadwaladr, y nyrs ymroddgar, a Banc Barclays, lle roedd Thomas Charles yn byw pan gafodd Mari Jones ei Beibl wedi ei thaith hir. Yna, ymlwybro am Lyn Tegid yn y prynhawn a thrwy gymorth hyfforddwyr proffesiynol, cael cyfle i ganwïo, oedd yn fwynhad pur. Siopa ychydig yn y dref ar y ffordd 'nôl, ac oherwydd fod yr arian poced yn cael ei reoli byddai'r Cardis ifainc yn mynd o siop i siop i gymharu prisiau! Cyrraedd 'nôl i'r Coleg yn fintai flinedig a pharatoi at y barbeciw. Cael Cwis Beiblaidd cystadleuol o gwmpas y tân. Pawb bellach yn barod am y gwely ac yn gwerthfawrogi noson dawelach na'r un gynt.

Gwawriodd bore Sul a pharatoi i gerdded i lawr i Gapel Tegid i'r oedfa yn un fintai. Pawb yn smart yn eu dillad gorau. Gweinidog a Swyddogion yn cydweithredu'n hyfryd bob amser a sicrhau fod y plant yn cael cyfle i dystio i Wasanaeth Bedydd a Chymundeb yn

eu tro. Ofnaf mai eithriad, yn hytrach na rheol, yw hyn erbyn heddiw. Gwahoddwyd y plant i gymryd rhan yn yr oedfa a braf eu gweld yn llenwi'r allor. Byddai aelodau'r gynulleidfa yn sgwrsio â'r plant wrth ddod o'r oedfa ac yn gwneud iddyn nhw deimlo'n reit bwysig. Dyma gyfathrebu perffaith rhwng y cenedlaethau! Cofiaf sylw Sam, un o'r bechgyn, am yr oedfa fore Sul un tro. Roedd yn grediniol fod y Parch Brian Griffith, y gweinidog, yn 'genius' am ei fod yn medru gweddiö heb edrych ar bapur yn y pulpud.

Wedi cerdded 'nôl am y Coleg a chael cinio, byddai bus y Brodyr James yn disgwyl amdanom. Yna, rhaid codi llaw ar gofeb Lewis Edwards sydd tu blaen i'r Coleg. Pawb wedi mwynhau mâs draw ac yn edrych ymlaen yn barod at flwyddyn nesaf.

Do, dysgwyl llawer o sgiliau byw, a phwy all roi pris ar y rhain. Y diweddar Barch Ddr Eifion Evans, cyn-weinidog Gofalaeth Llanilar, a gafodd y weledigaeth o sefydlu'r Cwrdd Plant yn Llanilar ar ddiwedd y saithdegau. Bu'n llwyddiant o'r dechrau a dysgais lawer wrth fod yn ei gwmni.

"Eraill a lafuriasant, ninnau a aethom i mewn i'w llafur hwynt."

Beti Griffiths



Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

14 Rhoi theori ar waith

Heddwch, gofal o'r greadigaeth a'r tlawd

Darllen Salm 104: 10–23

Yr wyt yn gwneud i'r gwellt dyfu i'r gwartheg, a phlanhigion at wasanaeth pobl, i ddwyn allan fwyd o'r ddaear, a gwin i lonni calonau pobl, olew i ddisgleirio'u hwynebau, a bara i gynnal eu calonau. (adn. 14–15)

Dros y blynyddoedd rwyf wedi bod mewn llyfudd rhyfeddol, ac roedd cynhadledd fyd-eang yn Hawaii yr un mor arbennig ag y byddech chi'n ei ddychmygu. Wrth inni hedfan dros filoedd o filltiroedd o gefnfor, a chael cip o'r diwedd ary dotiau bychan oedd yn ffurfio ynysoedd Hawaii, fe ddaethom yn fuan i sylweddoli mor agos yw'r berthynas rhwng y bobl yno a'u hamgylchfyd. Fe'n cyfarchwyd gan Gristnogion lleol ar y noson gyntaf gyda siant a ddefnyddiwyd ers cenedlaethau i groesawu pobl i'r lle hardd hwn:

Cymuned ar ynysoedd yng nghanol y Môr Tawel anferth ydym ni. Oherwydd hyn rydym yn agored i deimlo'r gwyntoedd sy'n chwythu o'n cwmpas, y tonnau sy'n torri ar ein glannau, y glaw sy'n disgyn i ffrwythloni ein tir gwerthfawr. Rydym yn dibynnu ar y naill a'r llall er mwyn byw. Mae'r cyfan a ddaw gan ein Duw mawr yn werthfawr yn ein golwg.

Gan fod atmosffer ein byd wedi cynhesu dros y blynyddoedd diwethaf, mae goblygiadau hynny i bawb sy'n byw ar ein planed fechan yn dod yn fwyfwy amlwg a real. Wrth i Gristnogion ddechrau cysylltu gofalu am y greadigaeth â'u ffydd, a hyd yn oed i sôn amdano fel rhan o genhadaeth yr eglwys, roeddwn i'n amheus. Doeddwn i ddim yn amau'r wyddoniaeth y tu ôl i gynhesu byd-eang na'i effaith, ond roeddwn i'n methu gweld y cysylltiad â'r efengyl. Roeddwn i'n ddall; erbyn heddiw mae gen i gywilydd, bron, o'm harafwch i ddeall.

Y person y bu ei gwaith o fwyaf o gymorth i mi oedd Stella Simiyu, botanegydd ac aelod o gyngor A Rocha, yr elusen gadwraeth Gristnogol ryngwladol. Gosododd y cwestiwn hwn i mi: 'Fedri di ddychmygu dy fywyd heb dy siopau ac archfarchnadoedd, dy orsaf betrol neu dy fferyllfa?' Chymerodd hi ddim yn hir i mi sylweddoli'r effaith enfawr y byddai hynny'n ei gael ar fy mywyd i. Aeth yn ei blaen, 'Mae pobl dlawd, gwledig, yn dibynnu'n uniongyrchol ar sylfaen o

adnoddau naturiol [o foroedd, afonydd a choedwigoedd]. Dyma lle mae eu fferyllfa, dyma lle mae eu harchfarchnad, dyma mewn gwirionedd eu gorsaf danwydd, eu cwmni egni, eu cwmni dŵr.¹

Os ydym yn fodlon gwneud y cysylltiad rhwng yr efengyl a gweithio dros gyfiawnder i'r tlawd, yna cam bychan ymhellach yw meddwl am ofal am y greadigaeth. Yn aml, bydd pobl dlawd yn byw â chysylltiad agosach at y tir a'r môr na'r cyfoethog, ond y cyfoethog sy'n cael y mwyaf o ddylanwad ar yr amgylchedd...

Ewch yn ôl at y ddealltwriaeth o Shalom y bu inni ei harchwilio ar ddechrau ein hastudiaethau, gan feddwl am natur gorfforol y cysyniad ohono. Mae a wnelo heddwch gymaint â bywd a chysgod a diogelwch ag sydd a wnelo hyn â'n perthynas â Duw. Ar waelod hierarchaeth Maslow o anghenion, mae ein hangen corfforol am fwyd, diod, dillad a chysgod.² Weithiau byddwn yn tynnu ein ffydd allan o'r corfforol ac yn rhoi gwedd arallfydol iddi. Ydy, mae'r wedd honno'n rhan ohoni, ond mae traed ffydd wedi eu plannu'n gadarn ar y ddaear. Ymatebodd Iesu i'r cwestiwn, pa un yw'r gorchymyn pwysicaf drwy ddweud: "a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' Yr ail yw hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain." (Marc 12:30–31)

Gwnewch nodyn o'r sylw olaf – nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain. Yn fersiwn Mathew o'r sgwrs hon mae'n darfog drwy ddweud, 'Ar y ddau orchymyn hyn y mae'r holl Gyfraith a'r profwydy yn dibynnu' (Mathew 22:40). Mae'r un honiad anhygoel mewn geiriau gwahanol, fod y cyfan o'r ysgrythur Hebreig yn cael ei grynhoi yn hyn – câr Dduw a châr dy gymydog.

Mae'r gorchymynion hyn yn fwy na dim ond dwy restr o flaenoriaethau. Maent wedi eu plethu'n annatod ynghyd... Allwn ni ddim dewis caru Duw ac anwybyddu ein cymydog, oherwydd fe fyddai gwneud hynny yn anwybyddu'r hyn a olyga i garu Duw. Y testun amlwg sy'n cefnogi hyn yw Mathew 25:31–46, lle dywed Iesu, 'Oherwydd bwm yn newynog a rhoesoch fwyd imi, bwm yn sychedig a rhoesoch ddiod imi, bwm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref; bwm yn noeth a rhoesoch ddillad amdanaf, bwm yn glaf ac ymwelsoch â mi, bwm yng ngharchar a daethoch ataf' (adn. 35–6). Ac mewn ateb i'r cwestiwn, 'Pryd ddaru ni

wneud hynny i gyd?' – 'Yn wir, rwy'n dweud wrthyh, yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch' (adn. 40). Felly, mae caru Duw yn golygu caru'r tlawd hefyd, ac os oes gennym ni gariad tuag at y tlawd (a ni ein hunain), fe fyddwn yn barod i ofalu am y greadigaeth.

Bydd cariad at y tlawd yn aml yn arwain at roi elusennol. Ond dydy hi ddim yn ddigon estyn elusen yn unig i'r rhai sydd mewn angen; mae angen inni fyw ac ymddwyn mewn modd fel na fydd angen ein helusen arnynt. Archesgob Catholig ym Mrasil oedd Hélder Câmara (1909–99), a gweithiodd ymysg y tlawd y rhan fwyaf o'i fywyd. Ef piau'r dyfyniad, 'Pan roddaf fwyd i'r tlawd, maen nhw'n fy ngalw yn sant. Pan ydw i'n gofyn pam eu bod nhw'n dlawd, maen nhw'n fy ngalw yn gomiwnydd.'

Rhaid i ninnau fynd y tu hwnt i ofyn sut y gallwn ni helpu'r tlawd, i ofyn 'Pam eu bod nhw'n dlawd? Pam nad oes yna swyddi, dim ysgolion a dim brechiadau? Pam mae yna lifogydd a sychder a newyn yn y lle cyntaf?' Mewn rhai achosion, rhyfel neu lygredigaeth yw'r ateb, a hyd yn oed yn ddiweddar mae'r gorllewin wedi rhuthro i ganol anghydfodau lle dylid bod wedi ceisio datrys y sefyllfa fel arall. Ond, yn aml, ein ffordd o fyw ni ein hunain a'n economi byd-eang gwancus sy'n rheibio'r adnoddau naturiol y mae'r tlawd eu hangen er mwyn byw o ddydd i ddydd... Mae allyriadau carbon wedi gwenwyno ein hatmosffer, ac wrth i gopaon iâ doddi a lefelau'r môr godi, fe roddir cannoedd o filiynau o bobl dlotaf ein byd mewn perygl. Y tristwch yw mai ein plant a'n hwyrion fydd yn gweld y gwaethaf o effeithiau newid hinsawdd, ac yn waeth fyth blant ac wyrion y rhai sy'n dlawd heddiw.

Allwn ni ddim gwadu'r mai digalon ydy'r olwg yma ar bethau. Ond gobeithiwn nad yw'n rhy hwyr. Mae cenedloedd yn gwneud newidiadau graddol, gan anelu at economi garbon-isel. Dwi'n hoff iawn o olwg tyrbinau gwynt, nid yn unig am eu bod yn harddach na'r peilonau sydd i'w gweld ar ein tirwedd (er bod rhai'n hoffi'r rheiny hefyd!) ond am fod pob un ohonynt yn arwydd ein bod o ddiffri yn y gwaith o harneisio ynni adnewyddol. Rhaid inni ddal i bwysu i'r cyfeiriad yma am mai dyma'r gobaith gorau sydd gennym o wneud iawn am y difrod amgylcheddol a wnaethom. Mae'r gyfran a roddir gan lywodraeth y Deyrnas Unedig at gymorth tramor yn barchus o leiaf ac wedi ei chynnal drwy flynyddoedd anodd.³ Yma eto, dylem gadw'r pwysau ar ein gwleidyddion i gynnal yr ymrwymiad hwn, neu'n well fyth, i wneud mwy. Yn lleol, mae'r ffordd yr ydym yn byw ac yn gwario ein cyfoeth (ac yn ei roi yn elusen) yn arwyddion o faint o gyswllt a welwn rhwng caru Duw, caru ein cymdogion, heddwch a chyfiawnder, gofal am y greadigaeth a'n cyfrifoldeb tuag at y tlawd.

¹ Stella Simiyu, dyfynnir yn Dave Bookless, *Planetwise* (IVP, 2008), Atodiad Cwestiwn 6. Am fwy o wybodaeth am A Rocha, gweler www.arocha.org

² Gweler Saul McLeod, 'Maslow's hierarchy of needs', www.simplypsychology.org/maslow.html

³ Ysgrifennwyd y llyfr hwn yn 2017 cyn y toriadau a wnaed yn 2020 gan y llywodraeth bresennol o 0.2% GDP i'r lefel o gymorth tramor a gynigir. Nid oes golwg eto am adferiad yn y sefyllfa yn ôl i 0.7% o'r GDP.

Galwad frys am weddi a chydsefyll gyda thrigolion Myanmar a'r eglwys yno

Aeth blwyddyn heibio ers y *coup* milwrol ym Myanmar sydd wedi golygu ansefydlogrwydd a thrais i'r bobl yno byth ers hynny.

Mae gan lawer o enwadau diwygiedig y Deyrnas Unedig gysylltiad ag Eglwys Bresbyteraidd Myanmar (PCM), sydd wedi ymdrechu i barhau â'i gwasanaeth a'i thystiolaeth yn wyneb y bygythion, y colledion a'r trais a ddaeth i'w rhan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r PCM yn aelod o Gyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) ac yn cynnwys 30,000 o aelodau.

Mewn cyfarfod gweddi i nodi blwyddyn ers dechrau'r trais yno fe glywyd am y caledi mae aelodau'r eglwys a'i gweithwyr wedi ei ddiodeff dan law'r awdurdodau milwrol. Bu hyn oll, wrth gwrs, ar ben effaith y pandemig ar y wlad, gyda bywydau pobl yn cael eu bygwth oherwydd diffyg diogelwch a diffyg adnoddau meddygol fel brechlynnau ac ocsigen ac ati.

Bu i lawer o bobl ffoi i wledydd cyfagos ac mae llawer mwy wedi eu dadleoli y tu mewn i Myanmar. Anogwyd eglwysy ledled y byd i gofio am y sefyllfa ym Myanmar gan y Parch Ddr Jooseop Keum a fynegodd ei gonsyrn difrifol a'i gydymdeimlad â'r eglwys yno a chydâ'r rhai sy'n ceisio heddwch a datrysiaid i'r ymladd. Gallwn gofio mewn gweddi, fel y weddi yma a baratowyd ganddo isod, a hefyd ystyried sut y gall ein heglwysy ninnau gynnig cefnogaeth ymarferol a chydsefyll â thrigolion y wlad. Mae CWM yn paratoi i anfon cefnogaeth ariannol eto, er y rhwystrau i wneud hynny. Llwyddodd cronfa argyfwng Sasiwn Chwiorydd EBC i gyfrannu a throsglwyddo swm o arian hefyd.

Da oedd clywed am yr arweiniad a gafwyd gan Eglwys yr Alban a'i llywydd, yr Arglwydd Jim Wallace, cyn ddirprwy brifweinidog y Senedd yn Holyrood, drwy roi pwysau fel eglwysy ar Swyddfa Dramor y Deyrnas Unedig i osod sancsiynau ar y wlad wrth i'r gyfundrefn filwrol yno barhau â'i hymosodiadau ac anwybyddu apeliadau i drafod a chamu yn ôl. Erys arweinydd etholedig y wlad, ynghyd ag aelodau eraill o'r blaid a reolai hyd y *coup*, dan glo. (HP-D, gol.)

“Dyma nhw'n galw ar yr ARGLWYDD yn eu trybini, a dyma fo'n eu hachub o'u trafferthion” (Salm 107:6).



Llun: trwy law Eglwys yr Alban

Gweddi:

Arglwydd bywyd, erfyniwn arnat i roi dy ras a'th ddiogelwch dros bobl Myanmar. Clyw gri'r rhai sy'n dyheu ac yn ceisio democratiaeth, a chofia ymdrechion y rhai sy'n ceisio heddwch ym Myanmar, hyd yn oed ar boen eu bywydau. **Arglwydd cyfiawnder**, erfyniwn arnat i ddangos na all neb fodd cyfiawnder trwy nerth a thrwy rym. Clyw gri'r rhai sy'n galw am gyfiawnder a heddwch, a chofia amgylchiadau'r rhai dan erledigaeth, y rhai toredig, a'r rhai sydd wedi eu dadleoli a'u dal yn eu gwlad eu hunain.

Arglwydd gobaith, erfyniwn arnat i adfer synnwyr o berthyn yno sy'n cynnwys pawb, ynghyd â diogelwch ym Myanmar. Clyw gri'r rhai sy'n ymdrechu'n daer i gynnal y bobl yno mewn awyrgylch o drais a gobeithiwn y bydd datrysiaid heddychlon a chyflym i'r gwrthdaro hwn.

Arglwydd tangnefedd, erfyniwn arnat i gofio lles pob enaid ym Myanmar. Clyw apêl y rhai sy'n glaf ac angen gofal ar yr adeg boenus hon. Bendithia hwy â'th ras iachusol drwy barhad pob gofal iechyd iddynt ac atal lledaeniad haint Covid-19 yn y tir.

Arglwydd Eglwys Bresbyteraidd Myanmar, erfyniwn arnat i wyllo dros ein brodyr a'n chwiorydd wrth iddynt gyfarfod yn eu synodau rhanbarthol ac yn eu Cymanfa Gyffredinol ym mis Chwefror. Dyro fendith ymarferol ar ffurf cysylltiad gwe sefydlog ac effeithiol iddynt a diogelwch i'r rhai sydd angen teithio i gyfarfodydd ynghanol ansefydlogrwydd sifil a gwrthdaro arfog. Bydded yr Eglwys yn sianel bendith i gynorthwyo ac i gynnal yr holl rai sydd wedi eu dadleoli yn y wlad.

Yn enw Iesu, Amen.



Darlith a Seminar Edwin Stephen Griffiths
Dydd Gwener, Chwefror 18, 2022

Arweinyddiaeth mewn Modelau Newydd o'r Eglwys

Yr Athro Andrew Clarke

Arweinydd Datblygu Arweinyddiaeth, Undeb Bedyddwyr yr Alban

Amlinelliad o'r diwrnod:

11.00–12.30 'A yw dyfodol arweinyddiaeth yr Eglwys yn gorwedd yn y gorffennol?' Darlith a thrafodaeth yn dilyn. Croeso i baw ymuno â ni wyneb yn wyneb yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd, neu ar-lein.

1.30–3.30 'Adfer hanfod arweinyddiaeth Eglwys y Testament Newydd'. Seminar a gweithdy. Wedi'i anelu'n bennaf at fyfyrwyr gweinidogol a gweinidogion newydd, ond mae croeso i eraill ymuno â ni'n bersonol yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd.

Noder: digwyddiad Saesneg yw hwn, ond fe fydd grŵp trafod Cymraeg fel rhan o seminar y prynhawn.

Cofrestrwch ar-lein yma: <https://forms.office.com/r/BMTd6vGuzp>

Roedd yr Athro Andrew Clarke yn Uwch-ddarlithydd yn astudiaethau'r Testament Newydd ym Mhrifysgol Aberdeen, lle'r ysgrifennodd waith sylweddol ar arweinyddiaeth a gweinidogaeth yn yr Eglwys Fore. Mae ei gyfrolau'n cynnwys *Serve the Community of the Church* (Eerdmans, 2000), *Secular and Christian Leadership in Corinth* (Paternoster, 2006), ac *A Pauline Theology of Church Leadership* (Bloomsbury, 2012).

Ar sail ei brofiad ysgolheigaidd a'i weinidogaeth, mae Andrew bellach yn cynghori nifer o sefydliadau, gan gynnwys Undeb Bedyddwyr yr Alban, i 'weithio gyda phob gweinidog ac arweinydd eglwys wrth iddynt geisio datblygu eu rhoddion a'u sgiliau penodol eu hunain mewn arweinyddiaeth a gweinidogaeth', gan geisio hwylyso 'arweinyddiaeth eglwysig drawsnewidiol'.

post@cbc.cymru
www.cbc.cymru
029 2025 6066

Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

BAPTISTS
TOGETHER

Cardiff
54 Richmond Road
Caerdydd Cardiff
CF24 3UR

CARDIFF
54 Richmond Road
Caerdydd Cardiff
CF24 3UR

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Y bywyd ir; ei wreiddyn; ei ffrwyth

Gwelsom eisoes sut y tramgywyddwyd tref Nasareth gan haeriad Iesu mai Ef ei hun oedd canolbwynt gweithredoedd iachusol Duw. Heddiw, cawn ganfod bod y newyddion da i dlodion, nid yn unig yn neges i'w chyhoeddi ond hefyd yn air bywiol i'w gredu a'i weithredu.

Gweddi

Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, diolchwn fod hyd yn oed ein hocheneidiau dyfnaf yn ddealladwy ger dy fron, drwy'r Ysbryd Glân. Cyfaddefwn fod hyd yn oed ein 'gorau' ni yn garpiau budr. Er hyn, 'Ti'm ceraist i er maint fy mai, / ni allaf lai na'th garu'. Ac ar sail dy gariad diorffwys, heddychlon di, ar sail dy sancteiddrwydd a'th ffyddlondeb cyfiawn yn Iesu Grist, nesawn atat ti i'th addoli:

I'r Tad, i'r Mab, a'r Ysbryd Glân,
Rhof glod ar gân heb dewi;
Y Tri yn Un, a'r Un yn Dri,
Mae f'enaid i'n ei garu. Amen.

Emyn 19 'O rhoddwn fawl i'r Arglwydd Dduw'

Y bywyd ir

Mae'n debyg bod amau daioni bwriadau a chyfarwyddyd daionus Duw yn rhan annatod o'n cymeriadau, a'n personoliaethau, ni bob un. O'r sibrydiad cyntaf yng nghlyw'r ddeuddyn cyntaf yng ngardd Eden, dadlennir mai sail pob anghrediniaeth, amheuaeth, neu anufudd-dod yw ein bod yn amau Duw ac yn credu twyll: 'A yw Duw wedi dweud? Na! ni fyddwch farw ... byddwch fel Duw yn gwybod da a drwg.' (Genesis 3:1,4,5)

Ac er ein bod yn gwybod bod 'rhywbeth o'i le, rhywbeth mawr o'i le' (yng ngeiriau Huw Chiswell!), ni fynwn gredu bod bywyd da, ffyniannus, ffrwythlon yn bosib yng nghwmni'r Arglwydd.

Tystiolaeth y Salm ydych chi yw bod y rhai sy'n 'cael hyfrydwch yng nghyfraith yr Arglwydd' fel pren wedi ei blannu ar lan afonydd bywiol, yn ir, yn ffres, yn ffrwythlon. Gwylia'r Arglwydd 'ffordd y cyfiawn' ond 'darfod' a wna llwybrau'r drygionus!

Darlleniad Salm 1

Gwreiddyn

Mae'n sicr fod yna ddyddiau pan oedd proffwydi oedd yn ffyddlon i'r Arglwydd yn gofyn iddyn nhw eu hunain, 'Ydy'r boen o weld pobl yn gwrthod gair yr Arglwydd, o fod ar "y tu allan", o gael fy ngwrthwynebu, yn ei hanfod yn fywyd gwerth chweil?'

Tystiodd Jeremeia i'w hwynebau fod ei gyfoedion yn wrthryfelgar a'u bod wedi gadael ffynnon bywyd a chloddio pydewau toredig iddynt eu hunain, ar wahân i'r Arglwydd (2:13).

Diau y byddai ein hoes faterol ni yn amau bod gwerth i weinidogaeth o'r fath, ac na allai dewis gyrfa oedd yn ymddangos mor hunandiniestriol fod yn llesol i gymeriad unrhyw un. Onid oedd ei boen ('Fy ngwewyr, fy ngwewyr! Rwy'n gwingo mewn poen') yn faich dyddiol ar ei ysbryd? Pa lesâd i unrhyw un fyddai dewis dilyn y math yma o fywyd?

Ac eto, i Jeremeia roedd y gwahoddiad gan yr Arglwydd ar i'w bobl ddychwelyd ato a derbyn bywyd yn rhoi gwerth ar ei yrfa a diben i ddyfalbarhau.

Yn ein darlleniad felly gwelwn Jeremeia yn cyferbynnu hylltra gwrthryfel bywyd â bywyd ffyniannus, iraidd a ffrwythlon yn yr Arglwydd. Bywyd ydyw sy'n debyg i goeden sydd â'i gwreiddiau wedi ymestyn gerllaw afonydd byw, ac sy'n medru sefyll a ffynnu pan fo diffeithwch y tir sych, a gwres llethol, yn bygwth ei ddifetha.

Darlleniad Jeremeia 17:5-10

Emyn 756 'Gwna fi fel pren planedig'

Ffrwyth

Daw'r trydydd darlleniad heddiw o ddechrau'r 'Bregeth ar y gwastadedd' (Luc 6:17), darn sy'n amlwg yn debyg i'r Bregeth ar y Mynydd (a gofnodir gan Mathew). A phan graffwn ar yr adnodau, deallwn ar unwaith fod geiriau Iesu'n chwyldroi gwerthoedd daearol yn llwyr.

Darlleniad: Luc 6:17-26

Rhag ofn i rywun gam-ddeall hynny, mae'n werth dweud nad oes rhinwedd arbennig mewn bod yn dlawd, nac yn ddirmygedig, nac yn bobl sy'n cael eu herlid! Nid ffurf ar fasochistaeth ysbrydol yw'r hyn mae Iesu'n ei bortreadu fel delfryd i'r bywyd Cristnogol!

Yr hyn mae Iesu'n ei wneud yw herio gwerthoedd pob oes, gwerthoedd sy'n arwain at ormes a chaethiwed o bob math. Cymharu meddyliau 'bydol' â gwerthoedd 'tragwyddol' a wna Iesu.

Er mor ddeniadol yw cynnig y byd, rhith yw ei ymfrost mewn gwirionedd, cysgod sydd heb na chynnwys na phwysau, nac unrhyw werthoedd arhosol.

Pan edrychwn ar hysbysebion sy'n ymddangos ar y cyfryngau, gwelwn yn

amlwg iawn fod gwerthoedd y 'byd' a'i 'addewid' yn cael eu cyhoeddi. Drwyddynt cyhoeddir bod cyfoeth, llawnder pethau bydol, hunan-les, hunan-glod, poblogrwydd, hapusrwydd, a chwerthin gwag yn amcanion teilwng, yn nodau sydd ynddynt eu hunain yn werthoedd y dylasem eu cofleidio, a'u chwenychu.

Fel cwningen a ddallwyd gan olau'r car sy'n rhuthro tuag atom ni, deallwn fod rhoi ein bryd ar y pethau hyn yn ein harwain at gael ein caethiwo ganddynt.

Yn y caets, tlodion ydym sy'n esgus ein bod yn gyfoethog, tlodion sy'n rhagrithio fod 'popeth yn iawn'. Caethion ydym sy'n twyllo ein hunain fod cadwyni petheuach rywsut yn rhyddid ysbrydol. Ac yn ein hawydd i feddiannu'r pethau hyn gormeswn eraill, eu tloidi a'u caethiwo.

Mewn gwirionedd, mae gwerthoedd bydol yn eu hanfod afreal yn ffantasiol. Ni chanfyddir bywyd cyflawn ynddynt. Gwerthoedd sy'n eithrio pobl ydynt: y tlawd na allant fyth gyrraedd at y cyfoeth a ddangosir, y rhai sydd wedi eu gormesu, y rhai sy'n drallodus, yn boenus neu'n glaf ac sydd heb obaith am wellhad.

I Iesu, mae gwerthoedd teyrnas Dduw yn cynnig gwerthoedd i 'dlodion' o bob math. 'Eiddoch' yw teyrnas Dduw, 'cewch' eich digoni, 'cewch' chwerthin. Mae i fywyd yn Nheyrnas Dduw werth a chyfeiriad *heddiw* sy'n arwain at 'lamu mewn gorfoledd' at 'wobr' nefol, tragwyddol, *arhosol*.

Ac o'r gallu i fyfyrion yng nghyfraith yr Arglwydd ddydd a nos (Salm 1), gan ddewis rhodio ar lwybrau gwahanol i gyngor annuwiol y gwatwarwyr, tyf bywyd ffyniannus go iawn. Caiff y rhai sydd â'u gwreiddiau'n ddwfn yn afonydd gras Duw eu galw i gyhoeddi ac i weithredu gwerthoedd y Deyrnas. Safwn, gan fynnu bod cyfiawnder cyflawn i dlodion, bod iechyd cyflawn i'r claf, bod rhyddid i'r caeth ac nad oes gan ffasiwn y byd na'i ormes afael ar bobl yr Arglwydd.

Gweddi

Arglwydd, yr wyt yn plannu'r rhai sy'n ymddiried ynot gerllaw'r dyfroedd tawel. Rhyddha ni o gaethiwed afiach gwerthoedd bydol ac oddi wrth afiechyd; rhyddha ni o afael celwydd; tro ni oddi wrth yr hyn sy'n wag ac yn rhithiol i'r bywyd hwnnw sydd yn Iesu Grist yn fywyd yn wir. Amen.

Emyn 487 'Awn, bechaduriaid, at y dŵr'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)